



YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 64
MAWRTH 2014

Wn i ddim a oeddech chi'n hoff o astudio atalnodi pan oeddech yn yr Ysgol? Mae'n rhaid imi gyfaddef bod ceisio dysgu ble yn union i roi'r coma, y colon a'r hanner colon yn gallu bod yn hen ben tost heb sôn am wybod ble i osod y *dash* a'r atalnod llawn. Daeth atgofion am ddryswch atalnodi yn ôl imi yn ddiweddar pan glywais bod yr Athro John McWhorter o'r America wedi datgan na fyddai fawr o broblem pe buasem yn penderfynu dileu'r coma yn gyfan gwbl. Daw hyn wrth gwrs yn sgil y cynydd aruthrol a welwyd yn y defnydd o gyfryngau electroneg fel negeseuon testun a thrydar sydd ddim yn gwneud fawr o ddefnydd o atalnodi ac o'r coma yn arbennig.

Mae sylw yr Athro John McWhorter felly yn codi'r cwestiwn: a oes unrhyw bwrpas i'r coma?

Prif bwrpas y coma yw nodi saib mewn brawddeg a sicrhau eglurder mewn darn o destun. Gellir hefyd defnyddio'r colon a'r hanner colon i nodi saib, ond y coma yw'r saib byrraf ac o bosib felly yr un mwyaf cyffredin ac adnabyddus. Nid yn unig y mae'n nodi saib ond mae'n cael ei ddefnyddio i wahanu cymalau oddi wrth ei gilydd a rhestrau o enwau. O ddefnyddio coma, gellir newid ystyr brawddeg hefyd.

Mae'r coma yn hen gyfaill inni ac wedi ymddangos ar dudalennau ein llyfrau, cylchgronau a phapurau newydd ers iddo gael ei fabwysiadu gennym yn y 16 ganrif. Ond yn ogystal â sicrhau atalnodi clir a dealladwy mae'r coma yn ein hatgoffa o bwysigrwydd saib a gorffwys mewn bywyd. Mae saib yn holl bwysig ac yn hanfodol gan ei fod yn rhoi hoe i'r corff a'r meddwl a chyfle i gamu nôl o waith bob dydd. Cofiwn fel y mae awdur Genesis yn dweud sut y bu i Dduw orffwys ar y seithfed dydd wedi iddo greu'r byd.

Bellach, mae pob diwrnod o'r wythnos yn ddiwrnodau o brysurdeb mawr i nifer helaeth ohonom a'r arfer o orffwys i gymryd saib yng nghwmni Duw wedi mynd yn angof. Yn hytrach, rhaid sicrhau bod y trwyn wrth y maen bob awr o'r dydd.

Mawr obeithiaf na fydd y coma byth yn cael ei ddileu o dudalennau y gair printiedig ond fy ngobaith hefyd yw y byddwn fel pobl Dduw yn ail-ddarganfod y pwysigrwydd a'r gwerth o brofi'r 'coma ysbrydol' a chymryd saib a gorffwys yng nghwmni y Duw byw er mwyn cael ein nerthu i gyflawni ei ewyllys Ef ar y ddaear hon.

Hwn yw y sanctaidd ddydd,
gorffwysodd Duw o'i waith;
a ninnau nawr, dan wenau Duw,
gorffwyswn ar ein taith.

Elfed

Pob bendith
Judith
Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW
01970 820939
berwynfa@btinternet.com

Calendr Mis Mawrth 2014

Cyhoeddwr y Mis: Ceris Gruffudd	Organydd y Mis : Ceris Gruffudd	
2 Mawrth 2.30yp	Oedfa Gymun : Gweinidog Edrychwn ymlaen at groesawu Caitlin Rees Roberts yn ystod yr oedfa.	Bwrdd y Cymun: Richard a Gwenan
9 Mawrth 10.30yb Grawys 1	Oedfa Deuluol: Gweinidog 'Gwnewch y pethau bychain...'	
16 Mawrth 10.30yb 2.30yp Grawys 2	Ysgol Sul o dan arweiniad Zoe Oedfa Bregeth Sion Meredith	Gofal y Te: I'w drefnu
23 Mawrth 10.30yb Grawys 3	Oedfa Bregeth Gweinidog Yn dilyn yr oedfa byddwn yn cynnal cyfarfod arbennig i drafod beth yw dyfodol yr eglwys. Gwnewch bob ymdrech i fod yn bresennol os gwelwch yn dda.	
30 Mawrth 10.30yb Grawys 4	Oedfa Bregeth Gweinidog	
6 Ebrill 2.30yp Grawys 5	Oedfa Gymun Gweinidog	Bwrdd y Cymun: Mervyn a Sue

I'ch Dyddiadur

- 3 Mawrth: Pwyllgor y Tair Gofalaeth yn Festri'r Garn 7.00yh
- 4 Mawrth: Cinio Bara Caws Cymorth Cristnogol: Eglwys y Santes Anne, Penparcau: 12.00-1.30yp
- 6 Mawrth: Cyfarfod i drafod y Cynllun 'Agor y Llyfr' yn Festri Bethel am 2yp
- 6 Mawrth: Noson Cawl a Chân yn Festri Horeb yng nghwmni Côr Cantre'r Gwaelod am 6yh.
Tocynnau £5.
- 12 Mawrth: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp.
- 18 Mawrth: Cyfarfod Diaconiaid Horeb am 5yh.
- 20 Mawrth: Hyfforddiant Cynllun 'Agor y Llyfr' yn Festri Bethel am 11.00yb- tan ganol y prynhawn.
- 25 Mawrth: Cylch Darllen y Beibl am 2.00yp. Byddwn yn darllen Datguddiad 13.
- 25 Mawrth: Cyfarfod Diaconiaid Bethel a Horeb ym Methel am 5yh.
- 26 Mawrth: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp. Horeb yn gyfrifol am weini.
- 26 Mawrth: Rihysal Cymanfa Ganu Gogledd Ceredigion yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth am 7yh
- 22 Mehefin: Gwibdaith Bethel a Horeb i ardal Ann Griffiths.

LLOFFION

Dymuniadau Gorau i Connie sydd wedi bod yn yr ysbyty.

Cydymdeimlawn yn ddwys â Gwladys Roberts, Minafon a gollodd ei brawd yn ddiweddar.
Cydymdeimlwn hefyd â Sue a Mair a'u teuluoedd a gollodd anwyliad yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Clwb Hanner Tymor: Diolch yn fawr iawn i Ceri, Ceris, Eirian, Sioned, Wendy, William a Zoe am arwain a chynorthwyo gyda gweithgareddau y Clwb Hanner Tymor. Diolch hefyd i'r Parchedig Derrick Adams a ddaeth i wneud triciau.

Oedfa Arbennig i Gyflwyno Atgofion am Ryfel: Ar ddydd Sul, 20 Gorffennaf byddwn yn cynnal oedfa arbennig i gyflwyno atgofion am ryfel. Rhowch wybod i'r Gweinidog os hoffech gymryd rhan. Byddaf yn falch iawn o glywed gennych.

Rhaglenni Cymanfa Ganu: Mae Rhaglenni 2014 ar gael gan Ceris – pris £1.35

Gwirfoddolwyr: Byddai'r swyddogion yn ddiolchgar pe gallech wirfoddoli trwy dorri eich enwau ar y rhestrau yn y cyntedd.

To'r Capel: Yn dilyn y gwyntoedd cryfion daeth rhagor o lechi oddi ar do'r capel. Diolch i bawb a fu wrthi yn cysylltu â'r cwmni yswiriant a'r adeiladwyr i wneud y gwaith trwsio.